

Arolygiad o Cafcass Cymru

Cynnwys

Cyflwyniad	Tudalen 4
Trosolwg o'n canfyddiadau	Tudalen 5-6
Cryfderau	Tudalen 6
Meysydd i'w gwella	Tudalen 7
Ansawdd ac effeithiolrwydd Ymarfer Cyfraith Breifat	Tudalen 8-10
Ansawdd ac effeithiolrwydd Ymarfer Cyfraith Gyhoeddus	Tudalen 11-12
Ansawdd ac effeithiolrwydd Arweinyddiaeth a Llywodraethu ar lefel weithredol a strategol	Tudalen 13-16
Methodoleg	Tudalen 17
Cydnabyddiaethau	Tudalen 17

Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o CAFCASS Cymru ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2018, yn unol ag adran 58A ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Gwerthusodd AGC berfformiad CAFCASS Cymru mewn perthynas â chyfarwyddiadau ymarfer penodedig a ategir gan Ddeddf Plant 2004. Arolygwyd CAFCASS Cymru fel sefydliad Cymru gyfan gan roi ystyriaeth i'w gyd-destun yng Nghymru. Adolygwyd agweddau ar y gwasanaeth a ddarperid ar lefel leol yn ei bum ardal leol.

Canolbwyntiodd ein methodoleg arolygu ar ymgysylltu â phobl, gan gynnwys y graddau y mae CAFCASS Cymru yn parchu urddas pobl ac yn rhoi pwyslais ar lais a rheolaeth, mesurau diogelu a dylanwadau er mwyn cyflawni canlyniadau da i blant a theuluoedd, gan hyrwyddo egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014.

Casglwyd tystiolaeth arolygu drwy edrych ar brofiadau plant unigol hyd at 18 oed a'u teulu wrth gael gwasanaeth gan CAFCASS Cymru. Gwnaed hyn drwy adolygu ac olrhain ffeiliau achos. Cynhaliwyd hefyd gyfweiliadau ag aelodau o'r staff, partneriaid allweddol a rhanddeiliaid, a manteisiwyd ar gyfleoedd i arsylwi ar ymarfer a chyfarfodydd â phlant a theuluoedd, lle bo hynny'n bosibl.

Canolbwyntiodd yr arolygiad ar ansawdd ac effeithiolrwydd prif swyddogaethau CAFCASS Cymru, sef rhoi cyngor arbenigol i'r llysoedd, diogelu a chefnogi plant sy'n rhan o achosion teuluol. Mae gan CAFCASS Cymru rôl hanfodol i'w chwarae wrth gefnogi plant a theuluoedd mewn achosion llys teuluol ac wrth gynghori'r llysoedd ynghylch y camau gorau i'w cymryd er budd gorau plant unigol.

Canolbwyntiwyd ar ansawdd ac effeithiolrwydd ymarfer CAFCASS Cymru yn ystod achosion cyfraith breifat a chyhoeddus. Ystyriwyd ansawdd ac effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu ar lefel weithredol a strategol. Hefyd, adolygwyd pa mor dda yr oedd CAFCASS Cymru yn hyrwyddo llais y plentyn, gan gynnwys y rhai sy'n destun ceisiadau am orchmynion llety diogel.

Trosolwg o'r canfyddiadau

- Gwelsom fod swyddogion CAFCASS Cymru yn ymrwymedig i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant, ac mae hyn wedi helpu'r sefydliad i reoli'r cynnydd yn ei lwyth gwaith. Mae'r sefydliad wedi wynebu'r her o weithio gyda niferoedd cynyddol o blant ac wedi darparu ymateb amserol a gwasanaeth o ansawdd da, ac mae ganddo'r gallu i adeiladu ar ei gryfderau presennol.
- Yn gyffredinol, roedd ansawdd yr ymarfer a welwyd yn dda, gyda pheth ymgysylltu ardderchog â phlant a theuluoedd. Roedd tystiolaeth i ddangos bod llais y plentyn wrth wraidd yr ymarfer. Nid oedd y cofnodion bob amser yn cynnwys tystiolaeth o waith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, er bod y gwaith hwnnw wedi digwydd.
- Roedd mwyafrif yr adroddiadau'n dangos prosesau rhannu gwybodaeth da ag asiantaethau partner, ac yn nodi argymhellion diogel a chlir. Yn achos cyfraith breifat, gwelsom y gellid gwneud gwelliannau wrth gyfeirio plant a theuluoedd at wasanaethau gwybodaeth i deuluoedd, er mwyn rhoi gwell gwybodaeth iddynt am y cymorth sydd ar gael yn eu hardal leol.
- Roedd y dull o ddadansoddi'r effaith ar y plentyn mewn achosion cyfraith breifat yn helpu'r ymarferwyr i ganolbwyntio ar farn ac anghenion y plentyn. Roedd tystiolaeth o blant yn cael eu gweld, a hynny ar eu pen eu hunain, wrth i gynghorwyr llys teulu adrodd i'r llys. Croesawyd y dull o ddadansoddi'r effaith ar y plentyn, ynghyd â'i ffocws clir ar y plentyn; mae angen sicrhau bod anghenion pob plentyn unigol yn cael eu cofnodi'n llawn.
- Ychydig o dystiolaeth a welwyd i ddangos bod cynlluniau'n cael eu diweddarau neu eu hadolygu wrth ymwneud â'r cynghorwyr llys teulu er mwyn adlewyrchu newidiadau a phenderfyniadau. Mae CAFCASS Cymru wedi rhoi camau ar waith i wella ansawdd y broses o gynllunio achosion, ac mae angen iddo wneud rhagor o waith i wella'r maes ymarfer hwn gan fod ansawdd y cynlluniau a welwyd yn amrywio, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig.
- Mae'r sefydliad yn uchelgeisiol, ac yn ymrwymedig i hyrwyddo dysgu a gwelliant parhaus. Ymhlith yr enghreifftiau o hyn mae dadansoddi'r effaith ar y plentyn mewn achosion cyfraith breifat a datblygu rôl swyddog ymholiadau diogelu. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu i'r ymarferwyr. Mae angen ymgorffori'r fframwaith sicrhau ansawdd, dysgu a gwella, sy'n canolbwyntio ar fyfyrion, cynnal adolygiadau gan gymheiriaid o adroddiadau, adolygu ymarfer a chynnal sesiynau datblygu.
- Roedd yr uwch-reolwyr yn arloesol, yn ymatebol ac yn gweithio'n dda gyda phartneriaid allweddol a rhanddeiliaid. Mae gan y sefydliad weledigaeth glir, y mae'r staff yn ei deall. Mae yna ddiwylliant cadarnhaol yn y sefydliad.
- Mae CAFCASS Cymru yn ceisio gwella'r gwasanaethau i blant drwy gydweithio i arloesi a dylanwadu ar ymarfer. Tystiwyd hyn gan y ffaith bod y dull o ddadansoddi'r effaith ar y plentyn yn cael ei rannu ag awdurdodau lleol. Clywsom

fod CAFCASS Cymru yn rhannu data gweinyddol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol i Gymru a Lloegr.

- Roedd tystiolaeth o gyfathrebu effeithiol rhwng y farnwriaeth a CAFCASS Cymru, a bod yr uwch-reolwyr yn gwerthfawrogi adborth. Mae CAFCASS Cymru yn gwerthfawrogi'r cyngor a roddir gan y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc. Mae angen cryfhau'r gydberthynas waith â Swyddogion Adolygu Annibynnol a sicrhau bod protocol CAFCASS Cymru ar gyfer gweithio gyda'r swyddogion hynny yn cael ei roi ar waith mewn modd cyson.
- Mae'r uwch-reolwyr yn cynnal cydberthnasau gwaith effeithiol â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, CAFCASS yn Lloegr ac ADSS Cymru er mwyn hyrwyddo anghenion plant a phobl ifanc yng Nghymru yng nghyd-destun y DU. Mae'r uwch-reolwyr wedi'u cymhell i weithio gyda phartneriaid i sicrhau gwelliannau, er mwyn cyflawni canlyniadau effeithiol i blant. Mae CAFCASS Cymru yn darparu'r cynnig rhagweithiol, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

Cryfderau

- Mae'r staff yn ymrwymedig i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.
- Mae'r gweithlu'n cynnwys ymarferwyr gwaith cymdeithasol medrus a phrofiadol, sy'n mwynhau gweithio i CAFCASS Cymru.
- Roedd yr uwch-reolwyr yn weledol, ac roedd parch mawr tuag atynt ymhlith y gweithlu a'r partneriaid.
- Mae'r rheolwyr yn hyrwyddo diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus.
- Roedd safon yr ymarfer yn dda, ar y cyfan, ac roedd sylfeini clir ar waith i wella ansawdd y gwaith.
- Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygiad strategol y gwasanaeth, yn ogystal â'r gwaith o'i ddarparu'n weithredol.
- Mae llais y plant a'r bobl ifanc wrth wraidd yr ymarfer.
- Mae'r uwch-reolwyr yn ymgysylltu ac yn cydweithio'n effeithiol â'r awdurdodau lleol, CAFCASS yn Lloegr, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a phartneriaid eraill er mwyn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n rhan o'r System Cyfiawnder Teuluol.
- Cyfathrebu da ym mhob rhan o'r sefydliad.

Meysydd i'w gwella

- Gwella gwybodaeth y gweithwyr am y gwasanaethau cymorth lleol sydd ar gael i blant a theuluoedd er mwyn gwella'r broses o'u cyfeirio at wasanaethau gwybodaeth i deuluoedd.
- Parhau i wella ansawdd y broses o gynllunio achosion a chofnodi ac yn arbennig yn dangos tystiolaeth o waith uniongyrchol a wnaed gyda phlant.
- Meithrin sgiliau a hyder yr ymarferwyr ymhellach wrth ddefnyddio adnoddau gwaith uniongyrchol.
- Cryfhau'r gydberthynas waith â Swyddogion Adolygu Annibynnol.

Y camau nesaf

Mae AGC yn disgwyl i CAFCASS Cymru ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd, ac i gymryd camau priodol. Mae AGC yn mynnu bod CAFCASS Cymru yn anfon ymateb i'r adroddiad cyn pen 20 diwrnod i'w gyhoeddi.

1. Ansawdd ac effeithiolrwydd ymarfer cyfraith breifat gyda theuluoedd

Mae plant a theuluoedd sy'n destun achosion cyfraith breifat yn cael eu hasesu mewn ffordd gymesur ac amserol cyn y gwrandawriad cyntaf er mwyn sicrhau bod eu lles yn cael ei ddiogelu. Mae CAFCASS Cymru yn rhoi cyngor cryno a chywir i'r llysoedd i'w galluogi i nodi plant y mae angen gwasanaeth arnynt ar ôl y gwrandawriad cyntaf, ac mae'r plant hynny'n cael yr asesiad sy'n briodol i'w hanghenion a'u hawliau. Mae ymarfer CAFCASS Cymru ym maes cyfraith teulu breifat yn amserol, yn gymesur â'r angen, yn deg ac yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer gwaith cymdeithasol, gwerthoedd y sefydliad a gweithdrefnau llysoedd teulu. Mae anghenion, dymuniadau a theimladau plant wrth wraidd ymarfer CAFCASS Cymru.

- 1.1. Pan fydd ceisiadau'n cael eu gwneud i'r llys mewn achosion cyfraith breifat, bydd CAFCASS Cymru yn ceisio sicrhau'r datrysiaid cynharaf posibl er budd gorau'r plant dan sylw. Gwelsom rywfaint o ymyrraeth effeithiol gan gynghorwyr llys teulu CAFCASS Cymru yn ystod y gwrandawriad cyntaf er mwyn sicrhau canlyniadau da i'r plant, ynghyd â rhywfaint o gyfeirio at ddatrysiaid cynnar a gwasanaethau cymorth. Nid oedd yr adroddiadau bob amser yn cynnwys tystiolaeth o gyfeirio at gymorth cynnar. Fodd bynnag, cadarnhaodd cyfweiliadau â'r gweithwyr fod cyfeirio fel arfer yn cael ei ystyried. Nid oedd rhai o'r staff yn hyderus o ran y broses o gyfeirio at wasanaethau cymorth. Byddai sicrhau cyswllt gwell â gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd awdurdodau lleol yn gwella ymwybyddiaeth y gweithwyr o'r gwasanaethau sydd ar gael i deuluoedd y nodir bod angen cymorth cynnar arnynt, ac yn hwyluso prosesau cyfeirio effeithiol.
- 1.2. Ar sail yr arsylwadau a wnaed, gwelsom enghreifftiau o ymarfer da a medrus gan y gweithwyr. Roedd yr holl staff yr arsylwyd arnynt yn broffesiynol, yn barchus, yn defnyddio iaith glir, yn ddiduedd ac yn canolbwyntio ar anghenion y plant a'r canlyniadau ar eu cyfer. Gwelsom gynghorwyr llys teulu yn ymgysylltu â phlant gan ddefnyddio adnoddau gwaith uniongyrchol i ganfod eu dymuniadau a'u teimladau. Gwelsom ganlyniadau da ar gyfer y plant o ganlyniad i waith datrys effeithiol yn y gwrandawriad cyntaf, lle'r oedd y cynghorwyr llys teulu wedi ymgysylltu'n effeithiol â'r aelodau o'r teulu i gytuno ar y ffordd orau ymlaen er budd y plentyn.
- 1.3. Gwelsom sgiliau ymgysylltu da gan y swyddogion ymholiadau diogelu, a oedd yn cyflawni eu rôl mewn modd parchus a phroffesiynol. Rôl y swyddogion diogelu yw ceisio gwybodaeth gan rieni, gofalwyr, awdurdodau lleol a'r heddlu i geisio canfod a oes unrhyw ffactorau risg y byddai angen i'r llys eu hystyried. Gwelsom swyddogion yn gwneud ymholiadau diogelu drwy gynnal cyfweiliadau dros y ffôn ac adolygu'r wybodaeth a gafwyd gan yr asiantaethau. Teimlai'r arolygwyr fod ansawdd yr ymarfer yn dda, a bod y canlyniadau gorau yn cael eu cyflawni pan fo adroddiad trylwyr yn cael ei gwblhau cyn y gwrandawriad cyntaf ar ôl i'r holl gyfweiliadau dros y ffôn gael eu cynnal a'r holl wiriadau gan yr asiantaethau ddod i law. Ar brydiau, gwelsom gyfweiliadau diogelu'n cael eu cynnal ar ddiwrnod y gwrandawriad cyntaf lle na fu'n bosibl siarad â'r bobl cyn hynny, ond roedd y swyddogion yn cydnabod nad oedd hynny'n arfer gorau, ac y byddai wedi bod yn

well cynnal y cyfweiliadau o flaen llaw. Gwelwyd enghreifftiau o adroddiadau ychwanegol yn cael eu ffeilio gan na fu modd i'r gweithwyr gwblhau adroddiad trylwyr cyn y gwrandawriad cyntaf oherwydd oedi cyn i'r gwiriadau gan yr asiantaethau ddod i law.

- 1.4. Gwelsom waith datrys effeithiol mewn achosion lle y cafodd yr holl ymholiadau diogelu eu cynnal cyn y gwrandawriad cyntaf, lle yr hysbyswyd y cynghorydd llys teulu am y risgiau a barn y bobl. Mae'r maes gwaith hwn yn her i CAF/CASS Cymru ar hyn o bryd gan fod nifer o'r adroddiadau'n cael eu ffeilio'n anghyflawn. Mae'r sefydliad wrthi'n gweithio gyda'r asiantaethau perthnasol er mwyn mynd i'r afael â hyn.
- 1.5. Gwelsom nifer o enghreifftiau o arfer da lle'r oedd y cynghorwyr llys teulu yn canolbwyntio ar fudd gorau'r plant ac yn arddangos sgiliau ymgysylltu da. Gwelsom fod gweithwyr CAF/CASS Cymru yn ymatal rhag barnu, a'u bod yn parchu anghenion y bobl ac yn dangos sensitifrwydd tuag atynt. Gwelsom dystiolaeth o gydweithio da rhwng CAF/CASS Cymru ac awdurdodau lleol mewn perthynas â rhannu gwybodaeth. Dangosodd arsylwadau ar yr ymarfer mewn gwrandawriadau cyntaf fod yr ymyrraeth gan CAF/CASS Cymru yn helpu i sicrhau datrysiad o fewn terfynau amser tynn. Fodd bynnag, roedd profiadau'r bobl yn dibynnu ar ba un a oedd yr holl ymholiadau diogelu wedi cael eu cwblhau cyn y gwrandawriad cyntaf er mwyn galluogi'r llys i ystyried yr holl wybodaeth berthnasol.
- 1.6. Roedd y gweithwyr yn gweithio gyda phlant i'w helpu i ddeall proses y llys a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed wrth gynrychioli eu dymuniadau a'u barn yn adroddiadau'r llys. Roedd CAF/CASS Cymru yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i blant a theuluoedd mewn perthynas â'i rôl o'r cychwyn cyntaf. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i deuluoedd nad oeddent yn cael cymorth cyfreithiol. Roedd pecynnau gwybodaeth dwyieithog ar gael i blant, pobl ifanc a theuluoedd.
- 1.7. Roedd atgyfeiriadau at awdurdodau lleol yn cael eu gwneud pan fyddai pryderon yn cael eu codi, ac roedd y plant yn cael eu diogelu drwy nodi'r risgiau'n glir yn ystod y broses ymholiadau diogelu. Mae rôl y swyddog ymholiadau diogelu yn un newydd, a hynny yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus. Arferai'r rôl gael ei chwblhau gan y cynghorwyr llys teulu yn unig. Teimlai'r swyddogion ymholiadau diogelu fod yr hyfforddiant a'r cymorth yr oeddent wedi eu cael wedi eu paratoi ar gyfer eu rôl newydd. Byddai hyfforddiant parhaus ar ddiogelu a sgiliau yn fuddiol er mwyn helpu'r staff i ddatblygu yn y rôl diogelu.
- 1.8. Gwelsom enghreifftiau o achosion lle'r oedd llais y plentyn o'r pwys mwyaf, ac enghreifftiau o arfer da lle'r oedd ffocws ar effaith yr amgylchiadau ar y plentyn. Gwelsom enghreifftiau o waith uniongyrchol gwybodaeth gyda phlant, a lle'r oedd safbwyntiau plant yn cael eu dyfynnu'n glir mewn adroddiadau.
- 1.9. Nid oedd rhai adroddiadau'n nodi priodoleddau unigryw'r plant yn ddigonol lle'r oedd yna nifer fawr o frodyr a/neu chwiorydd. O ran yr holl adroddiadau a adolygwyd, cafodd y plant eu gweld, a gwelsom dystiolaeth o ymrwymiad gan yr ymarferwyr i weld pob plentyn wrth adrodd i'r llys. Fodd bynnag, roedd diffyg manylder yn rhai o'r cofnodion ysgrifenedig o ran y gwaith uniongyrchol a wnaed

ac anghenion unigryw y plant. Roedd y staff a'r partneriaid yn croesawu'r dull o ddadansoddi'r effaith ar y plentyn ac yn teimlo ei fod yn fuddiol o ran helpu i ganolbwyntio ar anghenion y plentyn a'r materion a oedd yn effeithio ar ei les.

- 1.10. Roedd tystiolaeth o blant yn cael eu gweld ar eu pen eu hunain a thystiolaeth o rywffaint o ddefnydd o adnoddau gwaith uniongyrchol i hwyluso ymgysylltu effeithiol. Er i ni weld rhai enghreifftiau o waith uniongyrchol gwych gyda phlant, roedd cofnod yr ymarferwyr o'u defnydd o adnoddau yn amrywio. Mae pecyn cymorth cynhwysfawr ar gael i'r ymarferwyr, ond nid oedd y cofnodion bob amser yn dangos ei fod wedi cael ei ddefnyddio.
- 1.11. Roedd tystiolaeth o gynlluniau achos ym mwyafrif y cofnodion a welwyd. Fodd bynnag, roedd ansawdd y cynlluniau hyn yn amrywio, ac nid oeddent yn cael eu diweddarau na'u hadolygu fel mater o drefn. Ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd i ddangos bod cynlluniau'n cael eu rhannu â phlant a theuluoedd. Fodd bynnag, gwelsom weithwyr yn egluro eu rôl i blant a theuluoedd yn dda. Mae angen gwella'r cofnodion cynllunio achosion er mwyn sicrhau eu bod yn unigol ac yn ymatebol, a'u bod yn adnoddau gweithredol i gynorthwyo gwaith dadansoddi'r ymarferwyr. Gwelwyd tystiolaeth yn y cofnodion nad oedd y cynlluniau achos bob amser yn cynnwys digon o fanylder, ac nad oeddent yn dangos y penderfyniadau a wnaed mewn modd cyson.
- 1.12. Roedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau'n canolbwyntio ar lais y plentyn, yr effaith ar y plentyn a'r canlyniadau personol. Roedd yr adroddiadau o ansawdd da yn cyfeirio at ymchwil a oedd yn cynorthwyo gwaith dadansoddi ac yn amlinellu ffocws clir ar brofiadau'r plant ac effaith y risgiau. Fodd bynnag, nid oedd ansawdd yr adroddiadau yn gyson dda yn y sampl a welsom.

2. Ansawdd ac effeithiolrwydd ymarfer cyfraith gyhoeddus gyda theuluoedd

Mae plant a theuluoedd sy'n destun achosion cyfraith gyhoeddus yn cael eu cefnogi gan warcheidwaid plant y mae eu hasesiadau, dadansoddiadau ac argymhellion i'r llys yn amserol, yn gymesur ac yn canolbwyntio ar fudd gorau'r plentyn. Mae eu hymarfer yn effeithiol ac yn cael ei lywodraethu gan y safonau proffesiynol ar gyfer gwaith cymdeithasol, gwerthoedd y sefydliad a gweithdrefnau llysoedd teulu. Mae llais plant a phobl ifanc wrth wraidd ymarfer CAFCASS Cymru, a rhoddir cyngor i'r llysoedd sy'n sicrhau bod budd gorau'r plant o'r pwys mwyaf, bod oedi'n cael ei osgoi a bod lles y plant yn cael ei ddiogelu. Mae'r gwarcheidwaid plant yn ychwanegu gwerth i'r achosion, ac yn herio cynlluniau awdurdodau lleol lle bo angen. Mae'r gwarcheidwaid plant yn cynnal cyfathrebu â swyddogion adolygu annibynnol y plant ac yn sicrhau proses drosglwyddo ddiraferth ar ddiwedd yr achosion. Yn ei waith ym maes cyfraith gyhoeddus, mae CAFCASS Cymru yn cael effaith sylweddol ar gydb berthnasau gwaith da ag awdurdodau lleol.

- 2.1 Roedd y cynghorwyr llys teulu yn rhoi cyngor o ansawdd da i'r llysoedd teulu mewn perthynas â cheisiadau a wnaed mewn achosion cyfraith gyhoeddus, a hynny yn y gwrandawriad cyntaf, yng nghynhadledd rheoli'r achos ac yn y gwrandawriadau dilynol. Roedd y barnwyr yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau a wnaed gan y cynghorwyr llys teulu mewn achosion gofal cyhoeddus.
- 2.2 Roedd ansawdd yr adroddiadau'n amrywio, ond roedd y mwyafrif ohonynt o ansawdd da. Gwelsom enghreifftiau o adroddiadau ardderchog a oedd yn cynnwys dadansoddiad o effaith y canlyniadau ar blant unigol, yn cynrychioli lleisiau'r plant yn glir gan ddefnyddio eu hiaith a dyfyniadau uniongyrchol, ac yn ystyried yr holl opsiynau'n ofalus wrth wneud argymhellion. Roedd yr adroddiadau o ansawdd da yn cynnwys tystiolaeth o'r defnydd o ymchwil i lywio penderfyniadau. Nid oedd rhai o'r adroddiadau a welwyd yn cynnwys digon o fanylder o ran y modd yr ymgysylltwyd â'r plant a'r teuluoedd. Byddai dadansoddiad manylach o brofiadau'r plant wedi llywio'r argymhellion a wnaed yn well. Nid oedd rhai o'r adroddiadau'n dangos dadansoddiad cadarn, yn enwedig mewn perthynas ag effaith newidiadau ar blentyn. Gwelwyd argymhellion diogel a chliir mewn adroddiadau lle'r oedd dadansoddiad da o effaith y risgiau.
- 2.3 Gwelsom rywfaint o dystiolaeth mewn cofnodion o waith uniongyrchol effeithiol gyda phlant, ac o gynghorwyr llys teulu yn cynrychioli barn y plant ac yn eirioli drostynt. Roedd tystiolaeth bod cynghorwyr llys teulu wedi craffu ar gymorth a chynlluniau awdurdod lleol ar gyfer plentyn. Ceir cydberthnasau gwaith effeithiol rhwng cynghorwyr llys teulu y plant a gweithwyr cymdeithasol yr awdurdod lleol.
- 2.4 Mae CAFCASS Cymru yn awyddus i gryfhau'r cydberthnasau gwaith â'r awdurdodau lleol ac i ddatblygu fforymau ar gyfer dysgu a rennir. Teimlai'r awdurdodau lleol fod ganddynt gydberthnasau gwaith cadarnhaol â CAFCASS Cymru, a chlywsom dystiolaeth o gyfarfodydd rheolaidd rhwng uwch-reolwyr.
- 2.5 Gwelsom fod lle i wella o ran lefel yr ymgysylltu â Swyddogion Adolygu Annibynnol mewn awdurdodau lleol. Nid oedd y cynghorwyr llys teulu bob amser yn manteisio ar gyfleoedd i gael gwybodaeth gan Swyddogion Adolygu

Annibynnol er mwyn gwella ansawdd eu gwaith dadansoddi. Gwelsom rai enghreifftiau o gyfathrebu da â Swyddogion Adolygu Annibynnol ar ddiwedd achosion ac o rannu adroddiadau. Yn gadarnhaol, clywsom fod gweithdai'n cael eu cynllunio er mwyn galluogi CAFCASS Cymru i adeiladu ar ei gydberthnasau â Swyddogion Adolygu Annibynnol. Ni chawsom sicrwydd bod y protocol cyfredol ar gyfer gweithio gyda Swyddogion Adolygu Annibynnol yn cael ei ddefnyddio mewn modd cyson ac effeithiol.

- 2.6 Nid oedd y cofnodion bob amser yn ddigon manwl ac nid oeddent yn egluro'r penderfyniadau a wnaed na'r dadansoddiadau a lywiodd yr argymhellion. Nid oedd rhai o'r cofnodion yn dangos tystiolaeth o waith uniongyrchol gyda phlant a thelueoedd, nac yn cyfeirio at waith ymchwil. Roedd ansawdd y cynlluniau achos yn amrywio, gyda rhai ohonynt yn fanwl ac yn ddadansoddol a'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig.
- 2.7 Gwelsom ryngweithio da rhwng cynghorwyr llys teulu a phlant; roedd y cynghorwyr llys teulu yn gwrando ar y plant ac yn eu cefnogi wrth siarad â'r Barnwr. Roedd nifer o'r gweithwyr yn gallu cefnogi telueoedd drwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd cynnig rhagweithiol ar waith ar draws y sefydliad o ran y Gymraeg. Nododd y cynghorwyr llys teulu fod cefnogi telueoedd nad Cymraeg neu Saesneg oedd eu hiaith gyntaf yn her o ran trefnu gwasanaeth cyfieithu amserol ac o ansawdd da. Roedd gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol arall dwyieithog yn cael ei roi i blant, pobl ifanc, eu rhieni, eu gofalwyr a'u telueoedd yn ystod achosion. Byddai pecynnau gwybodaeth mewn amrywiaeth o ieithoedd yn helpu i ddarparu gwybodaeth gynnar i deulueoedd.
- 2.8 Mae gan CAFCASS Cymru rôl benodol mewn ceisiadau am orchmynion llety diogel ac mae nifer y ceisiadau yn isel o gymharu â gorchmynion eraill. Yn ystod yr arolygiad gwelwyd sampl o achosion lle'r oedd CAFCASS Cymru yn rhan o geisiadau am orchmynion llety diogel. Gwelsom fod cynghorwyr llys teulu yn ychwanegu gwerth at benderfyniadau drwy sicrhau bod llais y person ifanc yn cael ei glywed a'i gynrychioli. Roedd cynghorwyr llys teulu yn allweddol o ran cefnogi plant i fynd i gwrdd â Barnwyr yn y llys a'u helpu i ddeall y broses yn well.
- 2.9 Byddai rhagor o waith craffu gan gynghorwyr llys teulu o ran y broses o gynllunio'r cyfnod pontio yn helpu i sicrhau canlyniadau gwell i blant sy'n destun ceisiadau am orchmynion llety diogel. Mewn rhai o'r ffeiliau achos a welwyd, gwelsom dystiolaeth o gynghorwyr llys teulu yn hyrwyddo dymuniadau'r person ifanc ac yn herio cadernid y broses o gynllunio ar gyfer y plentyn mewn modd priodol.

3. Ansawdd ac effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu ar lefel weithredol a strategol

Mae'r arweinyddiaeth weithredol yn gadarn ac yn arwain at wasanaethau lleol a ddarperir yn effeithiol yn gyson, ynghyd ag ymarfer o ansawdd da gyda phlant, teuluoedd a'r llys teulu. Mae CAFCASS Cymru yn gweithio gyda phartneriaid lleol i ddarparu gwasanaeth cyfiawnder teuluol effeithiol. Mae'r arweinwyr yn ysgogi gwelliant parhaus sy'n golygu bod y gwasanaeth lleol yn hynod effeithiol. Caiff partneriaethau eu cefnogi gan lywodraethu tryloyw a thrylwyr rhwng CAFCASS Cymru a sefydliadau gwirfoddol, preifat a statudol allweddol. Mae'r blaenoriaethau a rennir yn glir. Ceir cysylltiad rhagweithiol â'r bwrdd cyfiawnder teuluol lleol. Mae gan y penaethiaid gwasanaeth a'r uwch-dimau rheoli wybodaeth gynhwysfawr am yr hyn sy'n digwydd yn y 'rheng flaen'. Ceir adolygiad rheolaidd o'r gwerth ychwanegol y mae CAFCASS Cymru yn ei gyfrannu at fywydau plant. Darperir tystiolaeth i gefnogi hyn. Maent yn goruchwylio prosesau rheoli a monitro perfformiad systematig sy'n arddangos ymateb trylwyr ac amserol i ddiffygion gwasanaethau neu alwadau newydd.

Mae'r trefniadau o ran arweinyddiaeth a llywodraethu yn gadarn ac maent yn cyfuno i greu strategaeth gyson effeithiol a gwasanaethau o ansawdd da i blant, teuluoedd a'r llys teulu. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo canlyniadau da i bobl ac mae ganddynt gydberthnasau effeithiol â chyrrff Cenedlaethol er mwyn hyrwyddo buddiannau pobl yng Nghymru. Mae CAFCASS Cymru yn gweithio gyda phartneriaid lleol i ddarparu gwasanaeth cyson o ansawdd uchel. Mae'r arweinwyr yn ysgogi gwelliant parhaus sy'n golygu bod y sefydliad yn gyson effeithiol. Caiff partneriaethau eu cefnogi gan lywodraethu tryloyw a thrylwyr rhwng CAFCASS Cymru a sefydliadau gwirfoddol, preifat a statudol allweddol. Mae'r blaenoriaethau a rennir yn glir. Ceir ymgysylltu effeithiol â'r bwrdd cyfiawnder teuluol cenedlaethol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r awdurdodau lleol. Ceir strategaeth glir a chyfoes ar gyfer comisiynu a datblygu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y plant a'r teuluoedd yn unol â disgywiliadau'r llysoedd. Mae gan y Prif Weithredwr a'r uwch-dim rheoli wybodaeth gynhwysfawr am yr hyn sy'n digwydd yn y 'rheng flaen', ac maent yn ei defnyddio i ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu a rheoli'r sefydliad. Maent yn ymwybodol o'r gwahaniaeth y mae eu gwasanaethau yn ei wneud a pha mor dda y maent yn llwyddo i gyflawni eu nodau. Mae datblygu sefydliadol a'r swyddogaeth gwella strategol yn cael effaith ar bob rhan o'r sefydliad. Mae CAFCASS Cymru yn herio ac yn defnyddio ei ddylanwad ar ymarfer mewn rhannau eraill o'r system i ysgogi gwelliannau.

3.1 Mae CAFCASS Cymru yn ymgysylltu'n rhagweithiol ac yn effeithiol â'i bartneriaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, grwpiau sy'n cynrychioli plant ac oedolion, a sefydliadau trydydd sector perthnasol. Mae gan CAFCASS Cymru Bwyllgor Cynghori sy'n darparu cydbwysedd effeithiol o gymorth a her i helpu'r sefydliad i gyflawni ei flaenoriaethau strategol a gwella'n barhaus. Mae'r uwch-reolwyr wedi gwrando ar gyngor gan y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc ac wedi gweithio gyda'r Bwrdd hwnnw a'i bartneriaid i ddatblygu fersiwn i blant a phobl ifanc o'u hadroddiad blynyddol.

3.2 Mae'r uwch-reolwyr wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu arweinwyr gweithredol o fewn y sefydliad ac wedi atgyfnerthu eu cyfraniad at waith cynllunio strategol. Mae cyfarfodydd rheolaidd y grŵp arwain yn galluogi'r rheolwyr ymarfer i rannu

syniadau a thrafod ymarfer gweithredol â'r dirprwy brif weithredwr a'r penaethiaid gweithrediadau. Clywsom dystiolaeth o newid mewn diwylliant, gyda'r rheolwyr gweithredol yn fwy ymwybodol o nodau strategol y sefydliad. Ceir trefniant hyblyg gwell lle mae ardaloedd lleol bellach yn cynorthwyo ei gilydd er mwyn rheoli'r cynnydd yn y llwyth gwaith.

3.3 Roedd yr aelodau o'r staff yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi â'r llwythi gwaith, ar y cyfan. Roedd yr uwch-reolwyr yn cydnabod bod y staff wedi ymdopi'n dda yn ystod cyfnodau o alw cynyddol. Roeddent hefyd yn cydnabod bod y rheolwyr ymarfer yn gweithio i sicrhau bod y llwythi gwaith yn deg, a'u bod yn cael eu dyrannu mewn modd tryloyw. Roedd y system hon yn gweithio'n dda, ar y cyfan; fodd bynnag, roedd pwysau cynyddol yn y maes hwn yn ystod cyfnodau o alw uchel.

3.4 Roedd CAF/CASS Cymru wedi ystyried ffyrdd o wella effeithlonrwydd y gwasanaeth ac wedi treialu menter Adrodd ar Ymholiadau Diogelu lwyddiannus, a oedd yn cynnwys hyfforddi a mentora gweithwyr cymorth busnes i ymgymryd â gwaith diogelu cychwynnol er mwyn gwella effeithlonrwydd a chefnogi llwythi achosion teg. Mae'r treial hwn wedi cael ei gydnabod am ei arloesedd o fewn Llywodraeth Cymru ac wedi cael ei enwebu am wobr. Wrth geisio arloesi a chydweithio ag eraill i wella canlyniadau i blant, clywsom fod CAF/CASS Cymru yn rhannu data gweinyddol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol i Gymru a Lloegr. Sefydlwyd yr Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol gan Sefydliad Nuffield er mwyn cefnogi'r penderfyniadau gorau posibl i blant drwy wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr.

3.5 Gwelwyd tystiolaeth o ddysgu effeithiol a pharhaus o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys adborth gan blant, pobl ifanc, teuluoedd a staff rheng flaen. Roedd adolygiadau ac archwiliadau ymarfer, adborth gan randdeiliaid, canfyddiadau arolygiadau a gwaith ymchwil yn llywio'r gwaith o ddylunio a datblygu'r gwasanaeth. Mae CAF/CASS Cymru wedi dangos bod ganddo ddiwylliant dysgu, ac mae wedi diwygio ei bolisi o ran ymateb i gwynion yn ddiweddar er mwyn rhoi pwyslais ar ddatrys cwynion yn gynnar a dysgu o'r hyn y mae pobl yn ei ddweud. Gwelsom dystiolaeth i ddangos ei fod yn ymchwilio i gwynion yn drylwyr ac yn amserol.

3.6. Mae gan bob swyddfa ystafelloedd addas i'r staff siarad â theuluoedd, ac mae'r ystafelloedd hynny wedi cael eu hadolygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc a'u diweddarau yn unol â'r argymhellion a wnaed.

3.7 Mae'r uwch-reolwyr yn y sefydliad yn ymwybodol o'u cryfderau a'u gwendidau ac yn gallu darparu tystiolaeth o welliannau dros gyfnod estynedig o amser. Er enghraifft, mae'r sefydliad wedi cydnabod nad yw'r cynghorwyr llys teulu ar hyn o bryd yn defnyddio crynodebau fel mater o drefn wrth ddod i ddiwedd eu gwaith gyda phlant. Mae'r arweinwyr strategol wrthi'n ystyried y maes hwn fel adnodd myfyrio ac er mwyn hwyluso dysgu.

3.8 Teimlai'r staff fod y rheolwyr yn hawdd mynd atynt a bod yna ddiwylliant o oruchwyliaeth anffurfiol reolaidd. Mae CAF/CASS Cymru wedi gweithio i

ddatblygu ei bolisi goruchwylio yn ogystal â datblygu ymarfer yn y maes hwn er mwyn sicrhau gwelliannau. Yn ddiweddar, mae wedi dechrau cynnal sesiynau adolygu ymarfer gan ddefnyddio model sy'n seiliedig ar gryfderau er mwyn adolygu ac archwilio ymarfer ochr yn ochr â'r ymarferwyr. Mae'r sesiynau hyn wedi cael eu croesawu gan yr ymarferwyr fel fforwm ar gyfer arfer myfyriol a datblygiad parhaus. Mae angen iddo wneud rhagor o waith i ymgorffori'r polisi goruchwylio a'r broses o adolygu ymarfer fel rhan o'i fframwaith sicrhau ansawdd, dysgu a gwella cyffredinol, er mwyn sicrhau bod pob gweithiwr yn cael goruchwyliaeth a chymorth cyson, ffurfiol o ansawdd da.

- 3.9 Ar sail y cyfweiliadau a gynhaliwyd ag aelodau o'r staff, gwelwyd tystiolaeth o'u hymrwymiad i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant. Roedd mwyafrif y staff a roddodd adborth i ni yn hapus yn gweithio i CAF/CASS Cymru ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac y gwrandewid arnynt. Roedd morâl y gweithlu yn dda, er gwaethaf pwysau gweithredol, gyda mwyafrif y gweithwyr yn dweud eu bod yn mwynhau eu gwaith. Yn ystod y broses o dreialu'r adroddiadau ar ymholiadau diogelu, tynnodd yr uwch-reolwyr sylw at yr angen i gefnogi lles y gweithlu. Gan gydnabod y pwysau cynyddol ar ei staff, mae CAF/CASS Cymru wedi sefydlu prosiect iechyd a lles i'w cefnogi.
- 3.10 Roedd prosesau goruchwylio ymarfer y rheolwyr yn cael eu gwella drwy roi fframwaith sicrhau ansawdd, dysgu a gwella, yn ogystal â phroses adolygu ymarfer, ar waith. Roedd hyn yn galluogi'r rheolwyr i sicrhau ansawdd y gwaith mewn modd systematig, a phan fydd y fframwaith a'r broses wedi'u hymgorffori'n llawn, byddant yn gwella'r modd y caiff perfformiad ei oruchwylio. Nid oes yr un broses ffurfiol ar waith ar gyfer adolygu ansawdd adroddiadau cyn eu ffeilio yn y llys. Fodd bynnag, clywsom fod rhai ymarferwyr yn ceisio cymorth gan gymheiriaid neu reolwyr llinell i adolygu adroddiadau, a bod hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn ymhlith y gweithwyr.
- 3.11 Mae yna uwch-dîm rheoli cryf, sy'n modelu arfer da a gwerthoedd y sefydliad. Roedd yr uwch-reolwyr yn weledol ac yn hawdd mynd atynt, ac roedd parch mawr atynt ymhlith cyflogeion y sefydliad a'i bartneriaid.
- 3.12 Mae'r uwch-reolwyr yn blaenoriaethu, yn nodi ac yn gweithredu strategaethau uchelgeisiol mewn perthynas â darparu gwasanaethau gwaith cymdeithasol yn y llysoedd teulu sy'n dylanwadu ar yr agenda bolisi genedlaethol, ac yn ymateb iddi, gan ysgogi gwelliannau o ran ymarfer. Clywsom negeseuon cadarnhaol gan rai o randdeiliaid CAF/CASS Cymru, a oedd yn teimlo bod y modd y maent yn cyfathrebu â'r sefydliad, a'u dealltwriaeth ohono, wedi gwella. Mae CAF/CASS Cymru yn ymdrechu i fod yn uchelgeisiol ac yn sefydliad sy'n dysgu, gan geisio gwella ei ymarfer a'i ganlyniadau i blant yn barhaus.
- 3.13 Gwelsom fod CAF/CASS Cymru yn ymgysylltu'n rhagweithiol ac yn effeithiol â Llywydd yr Adran Deulu, uwch-farnwyr eraill, y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant, yr Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol, Penaethiaid Gwasanaethau Plant a phartneriaid allweddol eraill yn y system cyfiawnder teuluol er mwyn helpu i gryfhau'r cydberthnasau gwaith a hyrwyddo'r canlyniadau gorau i blant.

- 3.14 Gwelwyd bod cyfathrebu effeithiol ar draws y sefydliad a bod y staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac y gwrandewid arnynt. Roedd cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal; fodd bynnag, ystyriwyd bod presenoldeb yn y cyfarfodydd hyn yn her yn sgil galwadau'r llysoedd. Clywsom fod sesiynau datblygu ymarfer yn cael eu trefnu er mwyn cefnogi arfer myfyriol a rhannu arfer da. Gallai cyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau dysgu ochr yn ochr ag asiantaethau ac awdurdodau lleol eraill ychwanegu gwerth at waith dysgu a datblygu'r sefydliad, yn ogystal â'i gydberthnasau gwaith â phartneriaid.
- 3.15 Mae'r sefydliad yn ceisio gwella'r cyfleoedd dysgu a datblygu drwy ymgynghori â'r staff, yn ogystal â thrwy gyfrwng yr uwch-reolwr dysgu a datblygu a benodwyd yn ddiweddar. Mae gan CAF/CASS Cymru gysylltiadau da â phrifysgolion ac mae'n cynnal ac yn cefnogi lleoliadau gwaith cymdeithasol i fyfyrwyr, yn ogystal â chymryd rhan mewn mentrau ymchwil a dysgu gyda CAF/CASS yn Lloegr. Clywsom dystiolaeth o farnwyr yn cynnig cyfleoedd dysgu i ymarferwyr drwy gynnal seminarau gweithdy a goruchwylio yn ystod cyfnod sefydlu ymarferwyr.
- 3.16 Roedd gan CAF/CASS Cymru gydberthnasau gwaith da â CAF/CASS yn Lloegr ac roedd yn sicrhau cynrychiolaeth o Gymru mewn digwyddiadau cenedlaethol yn ogystal â chyfraniad at drafodaethau i archwilio cyfleoedd gwell i'r plant dan sylw.

Methodoleg

Gwaith maes

Cynhaliwyd 20 diwrnod o waith maes, a oedd yn cynnwys pedwar diwrnod ym mhob un o bum ardal leol y sefydliad: De Cymru, De-orllewin Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru a Gwent.

Dewiswyd ffeiliau achos i'w holrhain a'u hadolygu o sampl o achosion a oedd wedi cau. Adolygwyd cyfanswm o 50 o ffeiliau; yn achos 30 ohonynt, cynhaliwyd cyfweiliadau olrhain dilynol â chynghorwyr llys teulu. Edrychwyd ar gyfanswm o 82 o adroddiadau; o blith y rhain roedd 26 yn adroddiadau cyfraith gyhoeddus, 51 yn adroddiadau cyfraith breifat a phump yn enghreifftiau o arfer da a ddarparwyd gan y sefydliad.

Arsylwyd ar ymarfer swyddogion ymholiadau diogelu, cynghorwyr llys teulu a, lle y bo'n bosibl, cynhaliwyd cyfarfodydd â phlant, rhieni a gofalwyr. Gyda'i gilydd, arsylwyd ar ymarfer ar 39 o achlysuron.

Cynhaliwyd cyfweiliadau ag amrywiaeth o gyflogeion ac uwch-swyddogion CAF/CASS Cymru, yn ogystal â'r prif weithredwr.

Cynhaliwyd cyfweiliadau ag amrywiaeth o sefydliadau partner a rhanddeiliaid.

Cynhaliwyd cyfweiliadau ag aelodau o'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i Bobl Ifanc.

Edrychwyd ar 63 o ymatebion i arolwg staff.

Edrychwyd ar 15 o ymatebion i arolwg Gwasanaethau Plant Awdurdod Lleol.

Edrychwyd ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.

Edrychwyd ar sampl o 15 o gwynion ac ymatebion ynglŷn â CAF/CASS Cymru.

Y Tîm Arolygu:

Prif Arolygydd: Sharon Eastlake. Arolygwyr Cynorthwyol: Ann Rowling, Kate Young, Mike Holding, Sian Roberts, Tracey Shepherd a Sara Hubbard.

Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn; plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, staff, rheolwyr, aelodau o'r farnwriaeth a sefydliadau rhanddeiliaid.